

Cofnodion Cyfarfod Arferol o **GYNGORTREF RHUTHUN** gynhaliwyd yn Swyddfeydd y Cyngor, Ffordd Wynnstey, Rhuthun ar nos Lun, 22 Mehefin 2015 am 7:00 p.m.

PRESENNOL: Cyng. Anne Roberts (**Maer - Cadeirydd**)
Cyng. Stephen Beach, James Bryan, Bob Costain, Elisabeth Culshaw,
Ken Hawkins, Rosie Hughes-Moseley, Menna Jones, Ian Lewney,
Robert Owen-Ellis, Geraint Woolford ac Emrys Wynne

34. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth Gyng. June Derry, Simeon Jones ac Heather Williams.

35. DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Derbyniwyd datganiadau o ddiddordeb mewn eitemau ar yr Agenda fel a ganlyn:
Datganodd Cyng. Emrys Wynne, fel Is-gadeirydd / Cadeirydd Gweithredol y Mudiad, ddiddordeb personol yn yr eitem ganlynol a gadawodd y siambr yn ystod y drafodaeth a'r penderfyniad ddilynodd.
Cof. Rhif 45 (a) – CEISIADAU AM GYMORTH ARIANNOL – MENTER IAITH

36. ADRODDIADY MAER

Dywedodd y Maer ei bod wedi mynychu'r canlynol ers y cyfarfod diwethaf:

27 Mai Ymlaen Rhuthun
29 Mai Ysgol Rhuthun – diwrnod gwobrwyo
9 Meh Ymchwil Cancr yng Nghastell Rhuthun
12 Meh Cyfarfod par Arwyddion Brown yn Neuadd y Dref, Dinbych
16 Meh Cyfarfod Tim y Dref
17 Meh Ymlaen Rhuthun
18 Meh Cyfarfod gyda'r Parchedig Stuart Evans par Sul Dinesig
20 Meh Marchnad ar y Sgwâr 22 Meh – Diwrnod Lluedd Arfog – Y Gofeb

37. ADRODDIADAU AELODAU

Cyng. Stephen Beach Cymdeithas Efeillio Rhuthun, Cyfarfod par Arwyddion Brown, Hyfforddiant Cod Ymddygiad
Cyng. James Bryan Gŵyl Rhuthun, Hyfforddiant Cod Ymddygiad
Cyng. Elisabeth Culshaw Marchnad Rhuthun
Cyng. Menna Jones Pwyllgor Ymgynghorol Llys Marchan, Corff Llywodraethol Ysgol Borthyn
Cyng. Ian Lewney Hyfforddiant Cod Ymddygiad
Cyng. Robert Owen-Ellis Banc Bwyd x 7, Ysgol Pen Barras
Cyng. Geraint Woolford Ysgol Rhuthun – diwrnod gwobrwyo, Tim y Dref, Diwrnod Lluedd Arfog

38. COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

PENDERFYNWYD: *derbyn a mabwysiadu fel cywir cofnodion y Cyfarfod Arferol a gynhaliwyd ar 26 Mai 2015*

39. MATERION YN CODI

Cof. Rhif 26 (b) CEISIADAU AM GYMORTH ARIANNOL – YMLAEN RHUTHUN –

Adroddodd y Maer bod sic am £134.77 wedi ei derbyn gan Ymlaen Rhuthun sef y gwahaniaeth rhwng y gost wirioneddol a'r cyfraniad gan y Cyngor Tref.

40. PWYLLGOR AMWYNDERAU

Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Mehefin 2015.

PENDERFYNWYD: *derbyn y cofnodion.*

41. PWYLLGOR CYNLLUNIO A DATBLYGU

Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Mehefin 2015.

PENDERFYNWYD: *derbyn y cofnodion.*

42. AELODAU CYNGOR TREF RHUTHUN

Gofynnwyd i'r aelodau gadarnhau manylion aelodau fel cywir ac ar gyfer yr aelodau yn unig.

43. AELODAETH PWYLLGORAU 2015 / 2016

Gofynnwyd i'r aelodaeth ystyried aelodaeth o'r gwahanol bwyllgorau.

PENDERFYNWYD: bod yr aelodau canlynol yn cael eu hethol fel a ganlyn:

(a) PWYLLGOR AMWYNDERAU

Cyng. Bob Costain, Elisabeth Culshaw, Menna Jones, Simeon Jones, Heather Williams ac Emrys Wynne,

(b) PWYLLGOR CYNLLUNIO A DATBLYGU

Cyng. Stephen Beach, James Bryan, June Derry, Ken Hawkins, Rosie Hughes-Moseley, Ian Lewney a Robert Owen-Ellis.

Aelodaeth o'r Pwyllgorau eraill fel a ganlyn:

(c) IS-BWYLLGOR CYMORTH ARIANNOL

Cyng. Bob Costain, Elisabeth Culshaw, June Derry ac Ian Lewney.

(d) IS-BWYLLGOR CYNLLUN IAITH

Cllrs. James Bryan, Menna Jones, Robert Owen-Ellis ac Emrys Wynne.

(e) FINANCIAL SCRUTINY SUB COMMITTEE

Cyng. Elisabeth Culshaw, June Derry, Menna Jones a Geraint Woolford.

(f) GRŴP ARCHWILIO DOGFENNAU

Cyng. Rosie Hughes-Moseley, Ken Hawkins a Robert Owen Ellis.

Mae'r Maer a'r Dirprwy Faer yn rhinwedd eu swydd yn aelodau o'r HOLL Bwyllgorau

44. CYNRYCHOLAETH AR GYRFF ALLANOL 2015 / 2016

Gofynnwyd i'r aelodau adolygu a diweddarau rhestr o gynrychiolaeth y Cyngor Tref.

PENDERFYNWYD: bod y rhestr yn cael ei diweddarau.

45. CEISIADAU AM GYMORTH ARIANNOL

(a) MENTER IAITH SIR DDINBYCH

(i) Cyflwynodd Clerc y Dref e-bost gan y Mudiad uchod yn gofyn am y cyfraniad blynyddol o £500 tuag at hybu defnydd o'r Gymraeg yn Rhuthun – mae £500 eisoes yn y gyllideb ar gyfer y Mudiad yma.

PENDERFYNWYD: cadarnhau'r Cyfraniad Blynyddol o £500 i'r Mudiad yma.

(ii) Cyflwynodd Clerc y Dref e-bost gan y Mudiad uchod yn gofyn am gyfraniad ariannol ychwanegol o £1,500 tuag at hybu defnydd o'r Gymraeg yn Rhuthun.

PENDERFYNWYD: gofyn am ragor o wybodaeth ac i'w drafod ymhellach yng nghyfarfod nesaf o'r Cyngor Tref.

(b) DRYSAU AGORED SIR DDINBYCH

Cyflwynodd Clerc y Dref lythyr, ynghyd a Chynllun Cyllid, oddi wrth Gymdeithas Ddinesig Rhuthun a'r Cylch yn gofyn am gyfraniad ariannol ychwanegol o £1,000 tuag at y digwyddiad eleni.

PENDERFYNWYD: gwneud cyfraniad ychwanegol o £1,000 tuag at y digwyddiad eleni.

(c) NANTCLWYDY DRE – GARDYR ARGLWYDD

Gofynnwyd i'r aelodau gadarnhau talu infois am £4,000 sef cyfraniad y Cyngor Tref tuag at y prosiect uchod – mae'r swm eisoes yn y gyllideb.

PENDERFYNWYD: cadarnhau talu'r infois uchod.

46. CODYMDDYGIAD

Cyflwynodd Clerc y Dref lythyr gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn amgau 'Cyfarwyddyd Diwygiedig ar y Cod Ymddygiad' gan gynnwys Arweiniad i aelodau o gynghorau cymunedol.

PENDERFYNWYD: derbyn y llythyr gyda'r ddogfen i'w hastudio gan y Grŵp Archwilio Dogfennau, fydd yn adrodd yn ôl i'r cyfarfod nesaf o'r Cyngor Tref.

**47. GORCHYMYN DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2013 (DEMOCRATIAETH)
(CYMRU) Adrannau 55 – 57**

CYNGHORAU CYMUNED A THREF - MYNEDIAD I WYBODAETH

Cyflwynodd Clerc y Dref e-bost gan Lywodraeth Cymru yn berthnasol i arweiniad statudol ar Fynediad i wybodaeth ar Gyngorau Cymuned a Thref.

PENDERFYNWYD: *derbyn y manylion – y ddogfen yma hefyd i'w hastudio gan y Grŵp Archwilio Dogfennau.*

**48. GORCHYMYN DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2014 (DEMOCRATIAETH)
(CYMRU) - Adran 58 COFRESTRAU O FUDDIANNAU AELODAU**

Mae'r ddyletswydd i sefydlu a chynnal y gofrestr buddiannau aelodau yn trosglwyddo o'r swyddog monitro i'r swyddog priodol o'r Cyngor Cymuned neu Dref – mae'n rhaid i'r gofrestr buddiannau gael ei chyhoeddi hefyd ar ffurf electronig, h.y. ar wefan y Cyngor.

PENDERFYNWYD: *y mater i'w drafod gan y Grŵp Archwilio Dogfennau.*

49. AWDURDODAU LLEOL CYMRU – OPSIYNAU AR GYFERY DYFODOL

Ni fydd y Bil Uno a Diwygio Llywodraeth Leol drafft yn cynnwys y 'prawf cymhwysedd y dylai trosiant cyngorau cymuned fod yn £200,000 o leiaf'.

50. GRWP CYNEFIN

I dderbyn gwahoddiad i'r Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol i'w gynnal nos Lun, 13 Gorffennaf 2015 am 6:00 o'r gloch yn Neuadd Hugh Owen, Y Ganolfan Rheolaeth, Bangor.

PENDERFYNWYD: *nad oedd neb ar gael oherwydd mae'r Cyfarfodydd Pwyllgorau'r un noson.*

51. DATGANIAD ARIANNOL

Cyflwynodd Clerc y Dref, fel Swyddog Ariannol Cyfrifol, ei Ddatganiad Ariannol am y cyfnod yn diwedd 31^{ain} Mai 2015.

PENDERFYNWYD: *derbyn a mabwysiadu'r Datganiad Ariannol.*

52. CYFRIFON I'W TALU

PENDERFYNWYD: *cymeradwyo talu'r eitemau canlynol:*

D.U.	B.T.	Teliffon	*	108.14
735	Sandra Williams	Cyfieithu		90.00
736	Cyllid y Wlad	Treth ac Yswiriant Gwladol		137.04
737	I.T.Williams Co. Ltd	Marchnad Rhuthun – cludo rhwystrau i Sgwar Sant Pedr	*	180.00
738	Dafydd Williams	Arian Parod – stampiau ayyb		24.60
739	Cennin Ltd	Sefydlu e-bost ar y cyfrifiadur newydd	*	84.00
740	Ground Control	Torri Glaswellt -Mai 2015	*	462.07
741	Dafydd Williams	Teis plastig ar gyfer Baneri'r Dref	*	15.00
742	IT Williams Co Ltd	Hurio lori a dreifar i gludo blodau o Gorwen	*	480.00
743	Cyngor Sir Ddinbych	Hyfforddiant is ls-gadeiryddion		35.00
744	Cyngor Sir Ddinbych	Nantclwyd y Dre- Gardd Yr Arglwydd		4,000.00
745	Menter Iaith	Cyfraniad Blynnyddol.		500.00

(Mae'r eitemau a nodir gyda * yn cynnwys T.A.W. y gellir ei adennill o £221.53)

53. DYDDIADY CYFARFOD NESAF

PENDERFYNWYD: *cadarnhau Dydd Llun, 27 Gorffennaf 2015 fel dyddiad cyfarfod nesaf o'r Cyngor Tref.*

